# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Gorffennaf 2016

Amser: 09.16 - 11.45

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3673

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Lynne Neagle AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Hefin David AC<br>John Griffiths AC<br>Llyr Gruffydd AC<br>Darren Millar AC<br>Julie Morgan AC<br>Michelle Brown AC (yn lle Mark Reckless AC) |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Marc Wyn Jones (Clerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd) |

**Trawsgrifiad**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gweld trawsgrifiad o’r cyfarfod (PDF 1MB) Gweld fel HTML (253KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau. Cafwyd ymddiheuriadau gan Mark Reckless; dirprwyodd Michelle Brown ar ei ran.

## 2 Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg - Trafod blaenoriaethau'r portffolio

O dan Reol Sefydlog 17.24, datganodd Llyr Gruffydd AC fuddiant perthnasol, sef ei fod yn llywodraethwr ysgol. Datganodd Hefin David ei fod yn uwch-ddarlithydd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd a bod gan Goleg Cymraeg safle yn y brifysgol.

Cytunodd yr Ysgrifennydd Cabinet i ddarparu'r canlynol:

Mwy o fanylion am yr ymchwil annibynnol gan Brifysgol Caerdydd ar y grant amddifadedd disgyblion.

Rhaglen gwerthuso Her Ysgolion Cymru, pan fydd ar gael.

Nodyn am ddyfodol gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru.

## 3 Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant - Trafod blaenoriaethau'r portffolio

Cytunodd yr Ysgrifennydd Cabinet i ddarparu'r canlynol:

Y wybodaeth ddiweddaraf am amserlenni ar gyfer cyhoeddi'r cynlluniau 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu gofal plant a blynyddoedd cynnar.

Nodyn am gyhoeddi asesiad o'r effaith ar hawliau plant (CRIA).

## 4 Gohebiaeth gan y Llywydd at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - Eich penodiad yn Gadeirydd Pwyllgor

Nodwyd y papur.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Cyfrifoldebau'r Pwyllgor a materion y Pumed Cynulliad

Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i wasanaethau ieuenctid yng Nghymru ac i ymgynghori â rhanddeiliaid ar eu blaenoriaethau ar gyfer y Pumed Cynulliad.